

CARDIFF  
UNIVERSITY

PRIFYSGOL  
CAERDYDD

**POLISI  
ASTUDIO DRAMOR**

# Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
ADRAN 1: Cwmpas ac Eithriadau.....	6
ADRAN 2: Egwyddorion allweddol.....	8
ADRAN 3: Amserlenni ar gyfer datblygu rhaglen.....	16
ADRAN 4: Cymeradwyo Partner Astudio Dramor.....	17
ADRAN 5: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.....	21
ADRAN 6: Myfyrwyr Cyfnewid Rhyngwladol ac Astudio Dramor sy'n dod i astudio yng Nghaerdydd.....	23
ADRAN 7: Rheoli a gwerthuso gweithgarwch Astudio Dramor.....	24
ATODIAD A: Tacsonomeg darpariaeth cyfnod ar leoliad.....	28

## Ein Strategaeth: Y Ffordd Ymlaen [2018-2023: Recast COVID-19](#).

Ein gweledigaeth yw bod yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd, sy'n rhagorol o ran ymchwil ac yn neilltuol yn addysgol, yn cael ein gyrru gan greadigrwydd a chwilfrydedd. Rydym am fod yn brifysgol sy'n cyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, Cymru, y Deyrnas Unedig a'r byd. Drwy gyflawni ein gweledigaeth, rydym yn disgwyl y byddwn yn gwella ein statws fel un o'r 100 o brifysgolion gorau yn y byd ac un o'r 20 orau yn y DU.

Y Ffordd Ymlaen [2018-2023](#): Mae [Ail-lunio COVID-19](#) yn amlinellu'r egwyddorion sy'n arwain y modd y byddwn ni'n rhoi'r uchelgais hwn ar waith, ac mae'n cynnwys dangosyddion perfformiad fydd yn ein helpu i fesur ein cynnydd. Bydd yr [Is-strategaeth ar gyfer Myfyrwyr ac Addysg](#) yn ail-bennu blaenoriaethau newydd er mwyn rhoi'r profiad o'r safon uchaf posibl i'n myfyrwyr o dan gyfyngiadau argyfwng COVID-19, gan gynnal ein safonau a'n gonestrwydd academaidd.

Mae'r rhain yn cynnwys ein hymrwymiad i:

- Yr Amgylchedd Dysgu
- Profiad myfyrwyr
- Strategaeth Iaith Gymraeg, Yr Alwad/Embrace It.
- Lleoliad a Chyflogadwyedd:
- Ehangu Cyfranogiad
- Rhagoriaeth addysgu:
- Safonau academaidd

## Trosolwg sefydliadol

Cafodd y Polisi hwn ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (ASQC) ym mis Ebrill 2018 (diweddarwyd ym mis Awst 2020)<sup>1</sup> a bydd yn cael ei adolygu'n gyson i wneud yn siŵr ei fod yn parhau i gefnogi prosesau mewnol sy'n gweithredu'n effeithlon ac effeithiol, yn ogystal â bodloni'r disgwyliadau a'r ymarferion a amlinellir yng [Nghôd Ansawdd y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Uwch wedi'i ddiwygio](#).

Mae'r egwyddorion wedi'u hamlinellu yn erbyn disgwyliadau Côd Ansawdd y DU ac arferion craidd a chyffredin ochr yn ochr â'r cyngor ac arweiniad ategol ar gyfer [Dylunio a Datblygu Cyrsiau](#), [Partneriaethau](#), [Graddau Ymchwil](#), [Monitro a Gwerthuso](#) ac [Aseu](#), [Galluogi Myfyrwyr i Gyflawni](#), ac [Ymgysylltu â Myfyrwyr](#) fel y bo'n briodol.

<b>Disgwyliadau o ran safonau</b>	<b>Disgwyliadau o ran ansawdd</b>
Mae safonau academaidd cyrsiau yn bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol.	Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o aseu cyrhaeddiad myfyriwr.
Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr wrth iddynt gymhwyso a thros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector.	O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa arno.
<b>Arferion craidd o ran safonau</b>	<b>Arferion craidd o ran ansawdd</b>
Mae'r ddarparwr yn sicrhau bod safonau'r trothwy ar gyfer ei gymwysterau yn gyson â'r fframweithiau cenedlaethol perthnasol.	Mae'r darparwr yn dylunio ac/neu'n cyflenwi cyrsiau o ansawdd uchel.
Mae'r darparwr yn sicrhau bod myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyflawni safonau y tu hwnt i'r trothwy y gellir eu cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir mewn darparwyr eraill yn y DU.	Pan fydd darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod y profiad academaidd o ansawdd uchel waeth ble neu sut y caiff cyrsiau eu cyflwyno a phwy sy'n eu darparu.
Pan fydd darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, bydd wedi gosod trefniadau effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod safonau ei ddyfarniadau'n gredadwy ac yn ddiogel	Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol.

<sup>1</sup> Gall y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (ASQC) wneud gwelliannau i'r polisi hwn. Caiff yr holl ddiwygiadau eu cyfleu i Rag Is-Gangellorion a Phenaethiaid Ysgolion y Coleg gan y Rhag Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd).

waeth ble neu ym mha fodd y darperir cyrsiau, neu bwy sy'n eu darparu.	
Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, prosesau asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, teg a thryloyw.	Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn darparu profiad academaidd o safon uchel.
	Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i gynnig profiad academaidd o safon uchel.
	Pan fydd y darparwr yn cynnig graddau ymchwil mae'n cyflawni'r rhain mewn amgylcheddau ymchwil priodol a chefnogol.
	Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, o ran safon eu profiadau academaidd.
	Mae gan y darparwr weithdrefnau teg a thryloyw ar gyfer mynd i'r afael â chwynion ac apeliadau sydd ar gael i bob myfyriwr.
<b>Arferion cyffredin o ran safonau</b>	<b>Arferion cyffredin o ran ansawdd</b>
Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau'n rheolaidd ac yn defnyddio'r canlyniadau i achosi gwelliant.	Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canlyniadau i achosi gwelliant.
	Mae agwedd y darparwr tuag at reoli ansawdd yn cymryd i ystyriaeth arbenigedd allanol.
	Mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd wrth ddatblygu, gwarantu a gwella safon eu profiadau academaidd.

# ADRAN 1: Cwmpas ac Eithriadau

## Cwmpas y Polisi

O 1 Awst 2018 (diweddarwyd ym mis Awst 2020), mae'r Polisi Astudio Dramor (y Polisi) yn rhoi arweiniad ar gyfer datblygu a rheoli darpariaeth gweithgarwch Astudio Dramor. Mae'n nodi ystod eang o weithgareddau sy'n dod o dan derm ymbarél eang 'astudiaeth dramor' (Atodiad A); Fodd bynnag, at ddibenion y polisi hwn, mae'r Brifysgol yn diffinio 'astudio dramor fel:

'cyfnodau o astudio mewn sefydliadau addysg uwch eraill y tu allan i'r DU, lle mae'r rhain yn ffurfio rhan o raglenni Prifysgol Caerdydd. Mae'r gweithgarwch hwn yn cyfeirio at gredyd 'amnewid' (lle disodlir rhan o raglen Prifysgol Caerdydd ag astudiaethau mewn sefydliad dramor) e.e. semester yn astudio dramor sydd werth 60 o gredydau; neu

credyd 'ychwanegol' (ymestyn y cyfnod astudio arferol ar gyfer y rhaglen honno ac arwain at ddyfarniad penodol sy'n cydnabod yr amser a dreuliwyd yn astudio dramor) e.e. 120 o gredydau

Mae'r Polisi Astudio Dramor yn adeiladu ar y prosesau a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y [Polisi Darpariaeth Gydweithredol](#) a'r [Polisi Cymeradwyo Rhaglenni](#) yn cymryd ymagwedd seiliedig ar risg i ddatblygu a rheoli'r holl weithgaredd astudio dramor gan nodi unrhyw ofynion ychwanegol penodol.

Ymdrinnir â dulliau eraill o gydweithio â sefydliadau addysg uwch eraill ym [Mholisi Darpariaeth Gydweithredol y Brifysgol](#), tra bod lleoliadau (gan gynnwys y rhai dramor) yn derbyn sylw ym [Mholisi Dysgu ar Leoliad y Brifysgol](#).

Er bod y polisi hwn yn canolbwyntio ar ddarpariaeth a addysgir, disgwylir y bydd Ysgolion yn defnyddio'r egwyddorion i sicrhau y cynhelir asesiad risg o weithgareddau astudiaeth ymchwil ôl-radd dramor a bod mecanweithiau cefnogi wedi'u diffinio'n glir ar gael ar gyfer myfyrwyr.

Disgwylir y bydd unrhyw ddatblygiad i'r holl gynigion rhaglenni newydd a newidiadau i raglenni cyfredol yn cael eu datblygu wrth gyfeirio at bolisiau Prifysgol Caerdydd a chodau ymarfer ochr yn ochr ag unrhyw ofynion corff proffesiynol a statudol:

- [Rheoliadau Academiaidd](#):
- [Egwyddorion ac ymrwymadau asesu](#) ac adnoddau [asesu ac adborth](#) cysylltiedig;
- Egwyddorion Strwythuro, Cynllunio a Darparu Rhaglen (cymeradwywyd ym mis Hydref 2019);
- [Fframwaith Addysg Ddigidol a Fframwaith Dysgu Digidol](#)
- Strategaeth y Gymraeg
- [Polisi Darpariaeth Gydweithredol](#) (diwygiwyd ym mis Awst 2020)
- [Polisi Astudio Dramor](#) (diwygiwyd ym mis Awst 2020), lle y bo'n briodol
- [Polisi Dysgu ar Leoliad](#) (diwygiwyd ym mis Awst 2020), lle y bo'n briodol
- [Polisiau Derbyn Myfyrwyr](#) (gan gynnwys telerau ac amodau'r cynnig)
- [Polisi Ffioedd Dysgu](#)

- Canllawiau yn ymwneud ag [Addysgu a chynorthwyo myfyrwyr](#) Canllawiau yn ymwneud ag [Addysgu a chynorthwyo myfyrwyr](#).

Mae angen i ysgolion gysylltu â'r tîm Cyfleoedd Byd-eang cyn i unrhyw drafodaethau ffurfiol ddigwydd gyda chyrrff partner Astudio Dramor er mwyn sicrhau y rhoddir canllawiau priodol ar sefydlu'r bartneriaeth.

Mae'n rhaid peidio â hysbysebu neu gynnig cyfleoedd Astudio Dramor i fyfyrwyr nes bod y Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid wedi cymeradwyo'r rhaglen a'r partner Astudio dramor.

### **Cynigion wedi'u cymeradwyo'n strategol gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol**

Ar brydiau gall y Bwrdd gymeradwyo cynnig fel menter strategol, ac mae'n rhaid i unrhyw gymeradwyaeth gwblhau pob cam o broses y Brifysgol.

Mae'n rhaid i unrhyw raglenni sy'n cynnwys gweithgarwch astudio dramor sy'n rhoi credydau dramor gael eu cymeradwyo yn unol â'r camau a amlinellir yn yr aa .

Rhaid i bob partneriaeth astudio dramor newydd gael ei chymeradwyo yn unol â'r darpariaethau a nodir yn y polisi hwn a dylid cysylltu â'r tîm cyfleoedd byd-eang cyn i'r trafodaethau gyda phartneriaid astudio dramor ddechrau er mwyn sicrhau y gellir rhoi canllawiau priodol ar sefydlu'r bartneriaeth.

Mae'n bwysig nodi bod rhaid peidio â chynnig cyfleoedd astudio dramor i fyfyrwyr hyd nes y bydd pob elfen wedi'i chymeradwyo.

### **Eithriadau**

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall holl weithgarwch astudio dramor ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr ennill sgiliau a gwybodaeth gwerthfawr i gefnogi eu hamcanion academaidd a chyflogadwyedd. Fodd bynnag, nid yw'r canlynol o fewn cwmpas y polisi hwn:

- **Blwyddyn Astudio Dramor yn amnewid credyd academaidd am flwyddyn gyfan o astudio (120 credyd) gyda phob marc yn cyfrannu at ddsbarth y radd:** Gan fod y gweithgarwch astudio hwn yn cyfrannu at fwy na'r 10% ar gyfer 120 o gredydau astudio ychwanegol, ystyrir hyn yn weithgarwch darpariaeth gydweithredol lawn a dylai Ysgolion gyfeirio at y gweithdrefnau a amlinellir yn y Fframwaith ar gyfer arweiniad.
- **Gweithgarwch astudio di-gredyd mewn astudio dramor:** Pan fydd gweithgarwch astudio dramor di-gredyd yn cael ei drefnu a/neu ei gefnogi gan ysgolion neu wasanaeth proffesiynol dylai adrannau o fewn y brifysgol, y ddarpariaeth yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol o'r polisi hwn.

## ADRAN 2: Egwyddorion allweddol

Mae'r prosesau gwneud penderfyniad yn y Polisi hwn wedi'u cynllunio mewn perthynas ag egwyddor arweiniol sybsidaredd, sy'n cefnogi proses fusnes effeithlon y Brifysgol tra'n sicrhau manylder a chraffu cymesur. Mae'n caniatáu i'r Brifysgol gwrdd yn llawn â'r disgwyliadau a'r arferion a nodir yng Nghod Ansawdd [Cod Addysg Uwch y Deyrnas Unedig diwygiedig](#) ac o dan [gyfraith ddiogelu defnyddwyr](#).

Ar gyfer cynigion sy'n cynnwys gweithgarwch astudio dramor, ystyriaeth allweddol yw p'un a yw cydweithio â phartner yn peri risg i safonau academiaidd a phrofiad myfyrwr y Brifysgol, a thrwy oblygiad i enw da'r brifysgol. Mae'r angen i ddiogelu'r rhain yn hollbwysig a rhaid sicrhau mai dyna yw'r brif ystyriaeth wrth werthuso buddiannau unrhyw fath o gydweithredu.

### Egwyddorion cyffredinol cymeradwyo rhaglenni

#### Cam 1 Cymeradwyaeth Strategol

Rhoddir Cymeradwyaeth Strategol ar lefel Prifysgol ac mae'n mynd i'r afael â'r cwestiwn allweddol, **'Mewn egwyddor, a ydym am wneud hyn, ac a yw'n cyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol a amlinellir yn [y Ffordd Ymlaen 2018-2023: Ail-lunio COVID-19](#)?** Mae ateb y cwestiwn hwn yn cynnwys symud ymlaen ar gynlluniau i wella ein darpariaeth ar-lein a chymysg. Fe ystyrir darpariaeth ar-lein newydd ar gyfer ffrydiau newydd posibl o refferniw wedi'u hategu gan wasanaeth technoleg dysgu ar lefel Prifysgol. Rhoddir ystyriaeth ofalus i wybodaeth am y farchnad, hyfywedd busnes gan gynnwys costau ac incwm ffioedd dysgu a risgiau (gan gynnwys risgiau i enw da'r brifysgol).

Dim ond cynigion allweddol sy'n bodloni'r blaenoriaethau sefydliadol a amlinellir yn [y Ffordd Ymlaen 2018-2023: Ail-lunio COVID-19](#) a gaiff eu cyflwyno i banel Cam 1 y Brifysgol, dylai'r cynigion amlygu sut mae'r cynnig yn bodloni'r meini prawf a nodir gan y Grŵp Strategaeth Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr.

Caiff pob cynnig ei ystyried mewn cyfarfodydd penodedig y flwyddyn (fel arfer yn chwarterol), a fydd yn cyd-fynd â'r amserlenni a geir yn Adran 3. Bydd pob cynnig yn ystyried blaenoriaethau sefydliadol, yr adnodd sydd ei angen ar yr Ysgol i ymrwymo i'r cyfnod datblygu a'r cymorth sydd ei angen gan CESI. Bydd angen i'r Ysgol amlinellu amserlenni manwl ar gyfer y cyfnod datblygu gan gynnwys y noddwr academiaidd a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod amserlenni'n cael eu bodloni. Bydd angen i bob cynnig ystyried yr amserlenni a nodir yn adran 3 er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd recriwtio.

#### Cam 2 Cyfnod Datblygu Rhaglen a Phartneriaeth

Yn ystod y cam hwn byddwch yn datblygu eich rhaglen, yn casglu gwybodaeth am eich partner arfaethedig a sut y bydd y rhaglen a'r cyfnod astudio dramor yn cael eu darparu.



Disgwylir y bydd pob cynnig sy'n symud ymlaen o Gam 1 Cymeradwyaeth Strategol yn ymwneud ag unrhyw weithdai a gynigir ar ddatblygu rhaglenni. Bydd y gweithdai'n ymdrin â chynllunio a darparu'r cwricwlwm, cyfleoedd asesu ac ailasesu, profiad y myfyriwr ac adnoddau dysgu.

Disgwylir y bydd pob rhaglen yn ymgorffori'r egwyddorion a amlinellir yn y [Strategaeth Gymraeg](#), [Strategaeth Addysg Ddigidol](#) yn ogystal ag [ymrwymadau asesu ac adborth](#). Bydd disgwyl i bob cynnig gynnwys [rhestr wirio trothwy'r modiwl](#) er mwyn sicrhau lefel graidd o gysondeb ym mhrofiad addysgol myfyryr, pan fydd llawer mwy o bwyslais ar elfennau digidol eu rhaglen.

Disgwylir y bydd buddsoddi mwy o amser yn ystod y cyfnod datblygu yn cynyddu'r rhaglenni arloesol, o ansawdd uchel sy'n cael eu cynnig ar gyfer cymeradwyaeth academiaidd i'r Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid, gan felly leihau amodau i'r eithaf.

Yn ystod y cyfnod hwn, cynhelir diwydrwydd dyladwy academiaidd manwl a bydd cynlluniau rheoli partneriaeth yn cael eu datblygu sy'n amlinellu rolau pob partner wrth gyflawni'r rhaglen.

### Cam 3

#### **Cymeradwyaeth Academiaidd**

**Mae'r cam hwn yn gofyn 'A oes gennym berthynas â'r partner yn barod? A yw hyn yn gadarn yn academiaidd ac a yw'n cyflawni'r egwyddorion sylfaenol o ran strwythur, cwricwlwm ac asesu a ddisgwylir gan bob rhaglen o eiddo Caerdydd?'**

Mae'n rhaid i bob cynnig a gyflwynir i'w ystyried i'r Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid ddangos sut y maent wedi ymgysylltu â'r gweithdai a ddarperir drwy'r CESI gan gynnwys [y Fframwaith Dysgu Digidol](#) i sicrhau eu bod yn bodloni egwyddorion strwythur, dyluniad a darpariaeth rhaglenni.

Bydd y Panel yn ceisio sicrhau bod pob rhaglen newydd:

- ymgorffori'r egwyddorion a amlinellir yn Fframwaith Dysgu Digidol a geir yn [Rhestr Wirio Trothwy Modiwl](#)
- ymgorffori'r egwyddorion a amlinellir yn yr [egwyddorion asesu ac adborth](#).
- sicrhau bod cwricwlwm craidd/gofynnol priodol i gynnal safonau pob dyfarniad academiaidd.
- sicrhau bod unrhyw ofynion Gorff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol wedi'u cynnwys.
- Bod â mecanweithiau a strwythurau cymorth priodol ar waith i ddiogelu profiad y myfyriwr;
- cydymffurfio â meincnodau allanol a fframweithiau ansawdd a safonau.

Mae'n hollbwysig bod myfyrwyr yn aelodau o'r panel er mwyn cael eu barn am y cynnig ac amlygu a oes angen unrhyw addasiadau ychwanegol.

Disgwylir y bydd manteisio ar y cymorth sydd ar gael yn ystod cyfnod datblygu'r rhaglen yn lleihau'r angen am wneud amodau/argymhellion ychwanegol cyn ei hargymell ar gyfer **cymeradwyaeth ffurfiol y Brifysgol** gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (ASQC).

Mae ein rhwymedigaethau o dan y Gyfraith Defnyddwyr yn ein hatal rhag hysbysebu unrhyw raglen(ni) hyd nes y rhoddir cymeradwyaeth ffurfiol gan yr ASQC er mwyn sicrhau cywirdeb y wybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr ac ymgeiswyr.

**Dim ond ar ôl cwblhau pob cam y gellir llofnodi cytundeb ffurfiol yn amlinellu natur, a hyd a lled y cydweithrediad.**

**Cymeradwyaeth academaidd i raglenni astudio dramor** (120 o gredydau ychwanegol yn creu rhaglen 4 blynedd).

Ystyrir bod yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer cyflwyno 120 o gredydau ychwanegol (h.y. blwyddyn academaidd lawn) o astudio dramor mewn rhaglenni credyd sydd eisoes ar 360 (480 o gredydau i gyd), gan gyfrannu 10% o'r dosbarthiad gradd cyffredinol, yn cael eu hystyried yn newidiadau sydd angen cymeradwyaeth lefel Prifysgol o dan [Bolisi Cymeradwyo Rhaglenni'r Brifysgol](#) ac mae'n bwysig bod Bwrdd/Byrddau Astudiaethau a Bwrdd/Byrddau Ysgol yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau ynglŷn â gwybodaeth y rhaglen cyn eu cyflwyno i'r coleg fel rhan o'r Broses Gymeradwyo Cam 1 i'w hystyried.

Cyn bod ysgolion yn paratoi i gyflwyno dogfennaeth Cymeradwyaeth Strategol Cam 1 i'r Coleg a cyn bod y myfyrwyr yn gallu cychwyn ar unrhyw weithgarwch astudio dramor, rhaid iddynt wirio gyda'r tîm Cyfleoedd Byd-eang fod pob un o'r sefydliadau partner sy'n astudio dramor wedi'u cymeradwyo gan y Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid, ac mae cytundebau partneriaeth gweithredol wedi'u sefydlu.

Os sefydlir partneriaethau newydd, bydd angen i Ysgolion drafod yr amser sydd ei angen i sefydlu cytundeb y bartneriaeth astudio dramor arfaethedig i gydredeg â datblygiad y rhaglen astudio dramor.

### **Cam 1: Cymeradwyaeth Strategol**

Bydd angen i'r Coleg sefydlu p'un a yw'r cynnig yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol yr Ysgol, y Coleg a'r Brifysgol a'i fod yn cyfiawnhau'r amser a'r adnoddau y byddai'n rhaid i'r Ysgol eu buddsoddi mewn camau dilynol. Bydd angen i bob cynnig ar gyfer datblygu rhaglen(ni) newydd â gweithgarwch astudio dramor ddangos y canlynol:

- y cyfiawnhad strategol ac academaidd dros ddatblygu'r rhaglen
- tystiolaeth o alw a strategaeth farchnata arfaethedig (y DU a/neu dramor);
- amlinelliad manwl o adnoddau academaidd ac adnoddau eraill sydd eu hangen;
- niferoedd myfyrwyr arfaethedig dros gyfnod o bum mlynedd;
- dadansoddiad ariannol (yn cynnwys incwm ffioedd a meini prawf llwyddiant);
- nodi unrhyw risgiau i'r Ysgol, y Coleg neu'r Brifysgol sy'n gysylltiedig â'r cynnig.
- cadarnhau cytundeb partneriaeth astudio dramor ac Asesiad Risg Partner Astudio Dramor cysylltiedig oddi wrth y tîm Cyfleoedd Byd-eang.

Bydd panel y Brifysgol (mewn ymgynghoriad â staff academaidd a gwasanaethau proffesiynol eraill o'r Coleg a'r Brifysgol ehangach), yn ystyried rhinweddau'r cynnig fel rhan o'r cyfarfod cymeradwyo strategol Cam 1 a bydd yn nodi a all y cynnig symud ymlaen i Gam 2.

Mae manylion llawn yr holl ddogfennau gofynnol ar gyfer cymeradwyaeth strategol Cam 1 ar gyfer datblygu rhaglenni gyda 120 credyd o weithgarwch astudio dramor ar gael ar y [fewnwyd](#) gyda chymorth ac arweiniad ar gael gan eich Swyddog Cyfathrebu a Recriwtio ar assessu hyfywedd marchnad eich rhaglen arfaethedig a gan Swyddog Ansawdd eich Coleg.

***Dylid nodi y gallai panel y Brifysgol wneud cais am wybodaeth bellach neu benderfynu na ddylid symud y cynnig ymlaen i Gam 2.***

### **Cam 2: Datblygu Rhaglen a Phartneriaeth**

Mae'r cam hwn yn cynnwys datblygu eich rhaglen Blwyddyn Astudio Dramor a phartneriaethau posibl. Yn ystod y cam hwn byddwch yn gwneud unrhyw weithdai a gynigir gan y Brifysgol ac yn ceisio ymgorffori'r egwyddorion a amlinellir yn y [Strategaeth Addysg Ddigidol](#) yn ogystal ag Egwyddorion Strwythuro, Cynllunio a Darparu Rhaglenni a'r [ymrwmiadau asesu ac adborth](#).

Bydd angen i chi ystyried:

- dyluniad eich rhaglen a'r canlyniadau dysgu i'w cyflawni drwy gydol y Flwyddyn Astudio Dramor;
- sut y bydd astudio mewn Prifysgolion partner posibl yn cyd-fynd â strwythur eich rhaglen;
- sut y byddwch yn asesu eich Blwyddyn Astudio Dramor: a ddefnyddir Asesiad Caerdydd neu drosi graddau a'r cyfleoedd i ail-asesu;
- sut y byddwch yn paratoi myfyrwyr ar gyfer eu Blwyddyn Astudio Dramor;
- sut y caiff myfyrwyr eu cefnogi yn ystod eu Blwyddyn Astudio dramor;
- y cytundeb dysgu myfyrwyr arfaethedig a sut y caiff ei gyflawni;
- sut y byddwch yn sicrhau ansawdd profiad myfyrwyr mewn Prifysgolion partner a sut y byddwch yn adolygu modiwlau arfaethedig a astudir;
- sut y byddwch yn rheoli eich partneriaethau gyda Phrifysgolion partner
- sut y bydd eich cynnig yn effeithio ar unrhyw ofynion Cyrff Statudol a Rheoleiddiol Proffesiynol? Sut bydd y rhain yn cael eu rheoli? A oes angen i chi hysbysu/gofyn am gymeradwyaeth gan eich Cyrff Statudol a Rheoleiddiol Proffesiynol?

Disgwylir y bydd buddsoddi mwy o amser yn ystod y cyfnod datblygu yn cynyddu'r rhaglenni arloesol, o ansawdd uchel sy'n cael eu cynnig ar gyfer cymeradwyaeth academaidd i'r Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid, gan felly leihau amodau i'r eithaf.

### **Cam 3: Cymeradwyaeth Academaidd**

Mae'r cam hwn yn cynnwys craffu ar yr holl wybodaeth am y rhaglen lle y bydd aelodau'r Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid yn ystyried materion yn ymwneud â chynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, profiad myfyrwyr, cylch bywyd myfyrwyr yn cynnwys cynnydd (a phwyntiau adfer o fethiant), adnoddau dysgu a threfniadau cymorth a gweinyddu yn yr Ysgol.

Pan fydd y Coleg wedi cytuno ar gymeradwyaeth strategol Cam 1, gall Ysgolion ddechrau datblygu'r wybodaeth lawn am y rhaglen i baratoi ar gyfer cyflwyniad i'r Rhaglen a'r Panel Sefydlog Partner.

Ni chaiff cynigion eu hystyried os nad yw partneriaid astudio dramor wedi cael eu cymeradwyo.

Fel sy'n cael ei amlinellu yn adran 3, bydd angen i Ysgolion osod amserlenni realistig ar gyfer datblygu, cymeradwyo a marchnata eu cynigion i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd recriwtio Mae manylion llawn y broses gymeradwyo i'w cael yn y [Polisi Datblygu Rhaglenni](#).

### Cynllunio rhaglen yn effeithiol

Bydd y Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid yn canolbwyntio ar sut mae'r cynigion astudio dramor yn bodloni'r safonau gofynnol a nodir yn y polisi hwn gan roi sylw arbennig i gymorth myfyrwyr gan y Brifysgol a'r sefydliad partner a'r effaith ar brofiad cyffredinol y myfyriwr. Rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:

- Cadarnhad bod y cytundeb astudio dramor ffurfiol yn bodoli (a ddarperir gan y tîm Cyfleoedd Byd-eang);
- Hyd y rhaglen yn y sefydliad sy'n lletya a sut mae hyn yn effeithio ar strwythur Caerdydd;
- Lefel FHEQ a gwerth y modiwlau a astudiwyd mewn sefydliad sy'n lletya drwy gyfrwng Aseiad Risg o'r Rhaglen Astudio Dramor a'r ddogfennaeth mapio modiwl astudio dramor;
- Y mecanweithiau a'r amseru ar gyfer cytuno ynghylch y dewis modiwlau a lefel y modiwlau gyda'r sefydliad partner, cyn bod y myfyriwr yn dechrau'r gweithgaredd;
- Deilliannau dysgu wedi'u diffinio'n glir ar gyfer modiwl Astudio Dramor Prifysgol Caerdydd, a'r modd y mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y deilliannau dysgu cyffredinol ar lefel y rhaglen.
- Goblygiadau gofynion PSRB a'r modd y cânt eu bodloni drwy gyfrwng y modiwlau partner astudio dramor;
- Drafft o Gytundeb Dysgu Unigol y Myfyriwr yn amlinellu a gaiff unrhyw fecanweithiau trosi graddau eu defnyddio – mae'n rhaid cytuno ar hyn cyn i'r myfyriwr ddechrau ar ei flwyddyn o astudio dramor gyda modelu priodol;
- Y wybodaeth a roddwyd i'r myfyrwyr yn y Llawlyfr Astudio Dramor a manylion y broses ymsefydlu;
- Y mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu a chadw mewn cysylltiad â'r partner Astudio Dramor;
- Cyfleoedd i wneud gwaith paratoi ieithyddol yng Nghaerdydd a'r sefydliad sy'n lletya a'r effaith ar waith asesu;
- Gweithdrefnau ar gyfer dychwelyd i'r Brifysgol a chymorth wrth ailintegreiddio i astudiaethau academaidd yng Nghaerdydd;
- Aseidiadau ac adborth gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer ailasesu/ailadrodd blwyddyn a chyfleoedd i drosglwyddo i raglenni eraill;
- Y mecanweithiau ar gyfer rheoli a monitro gweithgaredd astudio dramor.

### **Rhaglenni Gradd Cydanrhydedd**

Pan mae cyfleoedd astudio dramor ar gael i fyfyrwyr cydanrhydedd, rhaid i'r Ysgol gartref sicrhau fod trefniadau rheoli a gwerthuso'r holl drefniadau astudio dramor (gan gynnwys trosi graddau) yn cadw at yr egwyddorion a nodir yn y polisi hwn. Dylai pob

myfyriwr gael ei neilltuo i aelod priodol o staff â phrofiad o astudio dramor (gwasanaethau academaidd neu broffesiynol), fel arfer yn yr Ysgol gartref, a dyma fydd eu prif bwynt cyswllt drwy gydol y trefniant.

Mae'r holl ddogfennaeth sydd ei hangen ar gyfer [datblygu rhaglenni astudio dramor](#) ar gael ar y fewnrwyd gyda chymorth, Cyngor ac arweiniad a roddir gan Swyddog Ansawdd y Coleg a Swyddog Addysg y Coleg. Bydd Tîm Cyfathrebu eich Coleg hefyd yn rhoi cefnogaeth ac arweiniad ar ansawdd y wybodaeth rhaglen a gyflwynir a byddant yn cymeradwyo'r templed gwybodaeth rhaglen cyn ei gyflwyno i'r Panel Sefydlog.

### **Cam 3: Cymeradwyaeth gan Y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd**

Yn y cam terfynol hwn, mae'r cynnig yn cael ei gymeradwyo'n derfynol gan Y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd. Mae'n bwysig nodi bod yn rhaid i unrhyw amodau sy'n codi o'r ystyriaeth o'r cynnig gael eu cwblhau cyn y gall myfyrwyr ddechrau ar eu gweithgarwch astudio dramor.

### **Cymeradwyo modiwlau astudiaeth semester 60 credyd mewn gwledydd tramor**

Cyn i Ysgolion baratoi i gyflwyno dogfennau priodol i'r Bwrdd astudiaethau/Bwrdd yr Ysgol a cyn y gall myfyrwyr gychwyn unrhyw weithgarwch astudio dramor, mae'n rhaid iddynt wirio gyda'r tîm Cyfleoedd Byd-eang bod pob sefydliadau partner astudio dramor wedi'i gymeradwyo gan y Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid a bod cytundebau partneriaeth weithredol ar waith. Bydd angen cyflwyno Asesiad Risg Partner Astudio Dramor a'r cytundeb partneriaeth i'r Bwrdd Astudiaethau/Bwrdd yr Ysgol ynghyd â modiwl astudiaeth dramor 60 credyd.

### **Cymeradwyaeth Academaidd**

Mae cyflwyno modiwl astudio dramor (60 credyd) yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Astudiaethau/Bwrdd yr Ysgol. Yr amcan allweddol yw sicrhau nad oes unrhyw faterion posibl a allai effeithio'n negyddol ar brofiad y myfyriwr neu ar allu'r Ysgol i gefnogi'r ddarpariaeth o gyfleoedd astudio dramor i fyfyrwyr.

Dylai pob Bwrdd Astudiaethau ystyried y materion canlynol:

- A oes gan y brifysgol eisoes gytundeb partneriaeth gyda'r sefydliad partner arfaethedig? (*Mae'n rhaid i'r tîm Cyfleoedd Byd-eang ddarparu'r Asesiad Risg Partneriaid Astudio Dramor a'r cytundeb partneriaeth er mwyn cymeradwyo'r modiwl*);
- A yw'r ysgol yn hyderus y bydd y modiwlau a astudir yn y sefydliad partner yn debyg o ran lefel a dwyster i'r rhai a astudir yng Nghaerdydd? (bydd angen cyflwyno dogfennaeth mapio'r modiwl er mwyn sicrhau bod y lefel FHEQ briodol yn cael ei hastudio);
- Beth yw'r effaith gyffredinol ar y rhaglen pan fydd modiwl yn cael ei amnewid i raglen sy'n bodoli eisoes? (*Sut mae hyn effeithio ar lefel gyffredinol y rhaglen deilliannau dysgu?*);

- A oes angen ystyried unrhyw ofynion PSRB? *(Mae'n rhaid cwblhau'r ddogfen mapio'r modiwl er mwyn dangos bod yr holl ddeilliannau/cynnwys dysgu PSRB wedi'u cynnwys);*
- A yw strwythur y rhaglen bresennol yn caniatáu i semester gael ei amnewid? *(gellir profi anawsterau os yw pob modiwl yn hir, yn denau yn rhychwantu'r flwyddyn academaidd gyfan);*
- Beth yw'r effaith ar brofiad y myfyrwyr?
- A ymgynghorwyd â'r myfyrwyr ynghylch y newidiadau? *(Bydd angen adborth ffurfiol.);*
- A yw'n effeithio ar raglenni eraill? *(Bydd ystyried argaeledd y ddarpariaeth i fyfyrwyr ar raglenni ar y cyd yn arbennig o berthnasol.);*
- A oes angen unrhyw adnoddau eraill? *(Gan gynnwys y staff gwasanaethau academaidd a phroffesiynol sydd eu hangen i gyrchu a chydlynu'r ddarpariaeth a chynnal ymweliadau bugeiliol?);*
- A ystyriwyd goblygiadau posibl canllawiau'r Awdurdod Cystadlaethau a Marchnadoedd? *(Bydd angen i'r holl ddeunydd cyhoeddedig sicrhau fod natur ac argaeledd y ddarpariaeth yn glir.)*

## ADRAN 3: Amserlenni ar gyfer datblygu rhaglen

Gan fod pob cynnig rhaglen astudio dramor yn amrywio o ran maint a chymhlethdod, mae'n bwysig bod amser ac adnoddau priodol ar gael i staff yr ysgol drwy bob cam o'r broses a amlinellir yn adran 2. Bydd angen gwybodaeth ychwanegol ar gynigion sy'n cynnwys astudio dramor er mwyn sicrhau bod y safonau academaidd a phrofiad y myfyriwr yn cael eu diogelu.

Gall Panel Sefydlog y Rhaglen a'r Partner ystyried cynigion y rhaglen gan fod y Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid yn cwrdd yn rheolaidd. Bydd angen i ysgolion osod amserlenni realistig i ddatblygu cynigion sy'n atyniadol, yn arloesol ac yn ysgogi myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr yn ogystal â'r farchnad farchnata briodol.

Bydd ystyried cynigion i gyflwyno rhaglenni newydd yn hwyr yn y cylch academaidd yn effeithio ar allu'r Ysgolion i fanteisio i'r eithaf ar weithgarwch recriwtio a marchnata a gallu'r Ysgolion i recriwtio i'r niferoedd disgwyledig a nodwyd fel rhan o'u cynllun busnes<sup>2</sup>.

Mae angen ystyried newidiadau hwyr i raglenni cyfredol yn ofalus ar gyfer myfyrwyr cyfredol ac ymgeiswyr fel sydd wedi'i amlinellu yn [nhelerau ac amodau cynnig y Brifysgol](#). Mae Adran 4 o'r [Polisi Cymeradwyo Rhaglenni](#) yn amlinellu'r broses ymgynghori â myfyrwyr wrth wneud newidiadau i raglenni presennol a'r broses o gysylltu ag ymgeiswyr ar ôl gwneud y newidiadau.

---

<sup>2</sup>Bydd angen i Ddirprwy Is-ganghellor y Coleg gytuno ar gyfer ystyried rhaglenni newydd yn hwyr gan er mwyn pennu ym mha flwyddyn y bydd y rhaglen newydd yn dechrau.



## ADRAN 4: Cymeradwyo Partner Astudio Dramor

Bydd y tîm Cyfleoedd Byd-eang yn gyfrifol am frocera'r trefniadau gyda'r partner astudio dramor, fodd bynnag, pob ysgol unigol sy'n gyfrifol am sicrhau y gweithredir ac y gweithredolir y disgwyliadau a'r arferion a nodir yng [Nghod Ansawdd y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Uwch](#)

Cyn y gall unrhyw weithgarwch astudio dramor fynd rhagddo, rhaid i bob partner astudiaeth dramor gael ei asesu am risg o ran ei allu i gyflawni'r amcanion addysgol ac unrhyw risg(iau) ehangach i naill ai'r myfyriwr, yr Ysgol neu'r Brifysgol. Dylai'r asesiad hwn fod yn gymesur â graddfa'r risg, a dylai gael ei gynnal gyda diwydrwydd dyladwy. Rhaid ystyried nifer o agweddau hanfodol i sicrhau ei bod yn ateb y cod ymarfer dilynol a amlinellir yng [Nghod Ansawdd y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Uwch diwygiedig](#)

***Pan fydd darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod y profiad academaidd o ansawdd uchel waeth ble neu sut y caiff cyrsiau eu cyflwyno a phwy sy'n eu darparu'.***

### Asesu risg y sefydliad partner

Bydd y tîm Cyfleoedd Byd-eang yn asesu pob trefniant partneriaeth ar gyfer ei addasrwydd ac yn caniatáu ar gyfer ymagwedd sefydliadol ehangach tuag at ddatblygu partneriaeth. Byddant yn cydlynu â'r ysgol(ion) sy'n cynnig i gwblhau lenwi'r Asesiad Risg Partneriaid Astudio Dramor ar gyfer pob cytundeb a wnaed gan y Brifysgol. Ar ôl ei gwblhau, bydd is-grŵp o Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid yn ystyried manylion y bartneriaeth arfaethedig drwy'r wybodaeth a geir o'r Asesiad Risg Partner Astudio Dramor a fydd yn cynnwys y canlynol:

- P'un a yw'n bartner presennol i Brifysgol Caerdydd ac os felly ym mha rinwedd (partner strategol presennol, Erasmus, cytundebau mynegiant/dilyniant ac ati);
- Profiad y partneriaid arfaethedig o weithgarwch astudio dramor;
- Cefnogaeth academaidd a bugeiliol;
- Unrhyw wybodaeth addysgol neu ddiwylliannol y bydd angen i fyfyrwyr fod yn ymwybodol cyn iddynt gychwyn a byddai'n ffurfio rhan o drefn ymsefydlu astudiaeth dramor;
- Y systemau i sicrhau ansawdd a gwella'r rhaglen a phrofiad y myfyriwr;
- Manylion ymweliadau diweddar â'r sefydliad partner, gan gynnwys pwy sydd wedi ymweld â'r sefydliad partner o Brifysgol Caerdydd cyn i'r cytundeb gael ei gynnig, canfyddiadau eu hymweliad a'r trefniadau ar gyfer ymweliadau parhaus;
- Nifer yr Ysgolion a nodwyd i anfon myfyrwyr at y partner arfaethedig;
- Uchafswm nifer y myfyrwyr sy'n ymadael/sy'n dod i mewn y gellir eu hanfon/derbyn bob blwyddyn (gyda chadarnhad gan bob Ysgol y gallant dderbyn myfyrwyr).
- Yr adnoddau a'r cyfleusterau ar gael yn y sefydliad partner

Gellir cyflwyno cynigion ar gyfer partneriaethau newydd ac adolygiadau o gytundebau partneriaeth sy'n bodoli eisoes i is-grŵp Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid drwy gydol y flwyddyn yn unol â'r amserlen gyhoeddedig ar gyfer cyfarfodydd. Bydd y panel dim ond yn ystyried cynigion a gymeradwywyd sy'n rhois sylw i bob elfen o'r asesiad risg.

## Ymweld â Sefydliadau Partner

Mae'r ymweld â'r sefydliad partner yn rhan hanfodol o'r broses o gymeradwyo a rheolaeth barhaus partneriaethau Astudio Dramor Sefydliadol, fel rhan o adeiladu'r berthynas â'r sefydliad partner ac o gefnogi'r Brifysgol i asesu a monitro'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r bartneriaeth. Gan hynny, disgwylir y bydd ymweliad diweddar a phriodol â'r safle wedi cael ei gwblhau cyn y gellir ystyried cynnig i'w gymeradwyo. Felly, dylai sefydliadau partner ail-ymweld o leiaf unwaith bob 5 mlynedd. Gall Cyfleoedd Byd-eang helpu cynigwyr i gydgyssylltu ymweliadau cydweithredol a darparu canllawiau ar ba dystiolaeth y dylid ei dangos yn ystod ymweliadau.

## Yswiriant ac Atebolrwydd y Brifysgol

Dylid codi ymholiadau penodol ynghylch yswiriant gyda [Thîm Gwasanaethau Ariannol Corfforaethol](#) y Brifysgol. Fodd bynnag, oherwydd rheoliadau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, ni all y Brifysgol argymhell cynhyrchion penodol ac ni all godi tâl ar fyfyrwyr ar gyfer costau yswiriant.

Cyn awdurdodi unrhyw weithgarwch astudio dramor, mae'n rhaid i'r Ysgol fod yn foddol bod ymdriniaeth yswiriant ddigonol wedi'i sefydlu. Os nad oes yswiriant priodol ar waith yna dylid ceisio cyngor gan [Dîm Gwasanaethau Ariannol Corfforaethol](#) y Brifysgol.

## Yswiriant teithio

Mae'n rhaid i ysgolion roi manylion i'r Tîm Gwasanaethau Ariannol Corfforaethol am unrhyw fyfyrwr sy'n ymgymryd â lleoliad dramor, gan y bydd y Brifysgol yn trefnu yswiriant teithio ar gyfer y myfyrwr drwy UMAL. Fel arfer bydd yswiriant wedi'i gynnwys ar gyfer triniaeth feddygol frys ac ail-wladoli, hyd yn oed os oes digwyddiad yn codi tra byddant ar leoliad. Fodd bynnag, bydd yr yswiriant yn berthnasol am gyfnod y lleoliad yn unig (gan gynnwys teithio i'r lleoliad ac o'r lleoliad), a bydd angen i fyfyrwyr sy'n dymuno mynd ar wyliau, naill ai cyn neu ar ôl y lleoliad, drefnu eu hyswiriant teithio eu hunain ar gyfer y cyfnod ychwanegol hwnnw. Mae gwybodaeth o ran i ba raddau mae'r yswiriant drwy UMAL yn berthnasol ar gael ar [fewnryd y Brifysgol](#).

## Gofynion yswiriant tramor

Gall gofynion yswiriant y tu allan i'r DU amrywio yn ôl gwlad, felly dylid gwirio gyda phob darparwr lleoliad er mwyn canfod yr yswiriant sydd ar gael am niwed neu golled a brofir gan fyfyrwyr a thrydydd partion. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a yw lefel y yswiriant yn ddigonol, neu os yw'r darparwr lleoliad yn nodi nad oes unrhyw yswiriant ar gael, dylid gofyn am gyngor o'r [Tîm Gwasanaethau Ariannol Corfforaethol](#), gan y bydd angen ystyried a ddylid cynghori'r myfyrwr i brynu yswiriant ar wahân ar y farchnad agored.

**Cyrff proffesiynol:** Gall myfyrwyr sydd yn aelod o gorff proffesiynol gael gafael ar yswiriant fel rhan o'u haelodaeth.

### Asesu risg y rhaglen

Mae holl gynigion y rhaglen, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys astudio dramor, yn ddarostyngedig i'r prosesau a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y [Polisi Cymeradwyo Rhaglenni](#) a'r [Polisi Darpariaeth Cydweithredol](#) i ystyried y risg uwch sy'n gysylltiedig ag unrhyw gyfle dysgu sy'n digwydd i ffwrdd o'r sefydliad.

Yn ogystal â'r Ffurflen Asesu Risg I Bartneriaid sy'n Astudio Dramor, a ddarperir gan y Tîm Cyfleoedd Byd-eang, bydd y Panel Sefydlog yn ystyried manylion y model gweithredu astudio dramor drwy gyflwyno ffurflen asesu risg rhaglen astudio dramor ac yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Dethol myfyrwyr;
- Cynllun y rhaglen;
- Lefelau FHEQ o fodiwlau sy'n cael eu hastudio yn y sefydliad partner;
- Mapio modiwlau sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod holl ganlyniadau dysgu Prifysgol Caerdydd yn cael eu cyflawni;
- Gofynion unrhyw gyrff proffesiynol;
- Cyfleoedd asesu/ailasesu;
- Trefniadau cynnydd a monitro myfyrwyr;
- Cefnogaeth fugeiliol yn y sefydliad partner.
- Trefniadau ansawdd a safonau yn y sefydliad partner.

### Trosi graddau

O ystyried yr amrywiaeth mewn strwythurau a safonau yn y broses farcio o fewn sefydliadau ac ar draws gwledydd y tu allan i'r DU, bydd angen cyfieithu neu fapio. Mae'r Brifysgol wedi datblygu tablau trosi graddau penodol i'r wlad er mwyn cefnogi'r broses o drosi marciau a enillwyd o astudio dramor i gael credyd yng Nghaerdydd a darparu man cychwyn ar gyfer trafodaethau manwl gyda sefydliadau partner astudio dramor. Nid yw'r tablau yn cwmpasu pob gwlad ac nid ydynt yn benodol i ddisgyblaeth felly mae'n rhaid defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg wrth gyfieithu neu fapio'r marciau i'r safonau cyfatebol ym Mhrifysgol Caerdydd. Wrth anfon myfyrwyr ar weithgaredd astudio dramor, rhaid ystyried y canlynol:

- **A yw'n briodol defnyddio trosi graddau?** Ydy, ond dim ond pan fydd y modiwlau wedi'u mapio'n llawn ac os bydd y ddau sefydliad yn cytuno ar y fethodoleg addasu graddau fwyaf priodol. Nid yw'n orfodol nac yn briodol bob amser i ddefnyddio tablau a ddatblygwyd gan y Brifysgol gan mai canllawiau yn unig ydynt.
- **Beth fydd yn digwydd os defnyddir trosi graddau?** Os bydd yr Ysgol yn penderfynu defnyddio trosi graddau, rhaid i'r Ysgol gychwyn deialog gyda'r sefydliad partner astudio dramor i gadarnhau sut y bydd y marciau a ddyfernir yn yr astudiaeth o'r sefydliad partner astudio dramor yn cael eu cyfieithu i

farciau Caerdydd. Rhaid nodi union fanylion y fethodoleg trosi graddau ar y Cytundeb Dysgu Myfyrwyr er mwyn sicrhau bod y myfyriwr yn ymwybodol o sut y bydd y graddau a ddyfernir yn y sefydliad partner astudio dramor yn cael eu trosi'n ôl yn farciau i Gaerdydd ynghyd ag esboniad o sut y bydd eu marciau'n cyfrannu at y dosbarthiad gradd.

Os yw Trosi Graddau i gael ei ddefnyddio, rhaid cyflwyno manylion y fethodoleg trosi graddau arfaethedig i'r panel ynghyd â'r cais i gymeradwyo'r Bartneriaeth Astudio Dramor arfaethedig.

- **Beth fydd yn digwydd os na ddefnyddir trosi graddau?** Os na ddefnyddir trosi graddau, bydd myfyrwyr yn dal i dderbyn trawsgrifiad gan y sefydliad partner astudiaeth dramor sy'n amlygu'r marciau a ddyfernir am y modiwlau a astudir. Rhaid i ysgolion ystyried pa un o'r opsiynau canlynol a gaiff ei ddefnyddio:
  - sy'n gosod asesiad ychwanegol gan Brifysgol Caerdydd sy'n ymdrin â chanlyniadau dysgu astudiaeth dramor sy'n cael ei farcio gan staff Prifysgol Caerdydd. Yn y senario hwn, bydd y marciau'n cyfrannu at ddosbarthiad y radd;
  - disgowntio marciau'r astudiaeth dramor (ar gyfer y semester 60 credyd tramor yn bennaf) fel y byddai dosbarthiad gradd cyffredinol y myfyriwr yn cael ei gyfrifo ar gredyd gan Brifysgol Caerdydd yn unig.

Ym mhob amgylchiad, mae'r ysgol yn gyfrifol am ddogfennu'r union fethodoleg trosi graddau yn y cytundeb dysgu myfyrwyr cyn iddynt adael ar gyfer gweithgarwch astudio dramor. Rhaid i'r Cytundeb Dysgu Myfyrwyr gael ei lofnodi a'i gofnodi er mwyn i'r Bwrdd Arholi gyfeirio ato yn y dyfodol.

### **Adolygu ac ail-gymeradwyo cytundebau**

Mae'n rhaid adolygu pob cytundeb partneriaeth bob 5 mlynedd yn unol â'r darpariaethau a nodir yn y [Polisi Darpariaeth Gydwethredol](#). Bydd y tîm Cyfleoedd Byd-eang yn gyfrifol am gadw cofrestr astudio dramor a fydd yn cael ei hadolygu a'i diweddarau bob blwyddyn academiaidd a'i chymeradwyo gan y Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid.

# ADRAN 5: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

## Ymrwymiad y Brifysgol a'r cefndir deddfwriaethol

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i greu amgylchedd dysgu ysgogol a chefnogol sy'n seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth y naill at y llall. Byddwn yn parhau i ddathlu a gwerthfawrogi amrywiaeth yn y gymuned o staff a myfyrwyr, i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i herio ac ymdrechu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon.

Amlinellir yr egwyddorion hyn mewn mwy o fanylder ym [Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol](#), sydd ynddo ei hun yn seiliedig ar ddeddfwriaeth y DU. Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion gwarchoddedig yw'r seiliau lle mae gwahaniaethu yn anghyfreithlon. Y nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf yw:

- oedran,
- anabledd,
- ailbennu rhywedd,
- priodas a phartneriaeth sifil,
- beichiogrwydd a mamolaeth,
- hil,
- crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred),
- rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

## Prosesau datganiad y myfyriwr

Mae'n ofynnol i'r Brifysgol sicrhau na wahaniaethir yn erbyn myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig mewn perthynas â gweithgarwch astudio dramor, a'i bod yn rhaid iddi sicrhau y gwneir addasiadau rhesymol er mwyn i fyfyrwyr anabl allu cwblhau unrhyw ofynion astudio dramor o fewn eu rhaglen astudio. Er mwyn i addasiadau rhesymol gael eu gwneud, **mae'n rhaid rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatgelu eu hanabledd yn ffurfiol** (os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny) cyn dyrannu lle i astudio dramor yn y sefydliad partner.

Os bydd myfyriwr yn nodi cyflwr neu amgylchiad a allai effeithio ar ei allu i gwblhau'r modiwl/blwyddyn astudio dramor yn ddiogel, neu y gallai fod angen addasiad rhesymol arno, dylai'r Ysgol drafod y sefyllfa gyda'r myfyriwr. Os yw'n ymddangos y bydd y wybodaeth a ddarparwyd gan y myfyriwr yn debygol o gael effaith ar weithgarwch astudio dramor, mae'n rhaid rhoi gwybod i'r myfyriwr na all fynd ymlaen nes yr hysbysir y sefydliad astudio dramor partner am y wybodaeth berthnasol ac y rhoddir ystyriaeth i sut y gellir rheoli unrhyw risg ychwanegol. Os bydd y myfyriwr yn gwrthod cydsynio i'r wybodaeth a ddatgelir, ni chaiff gweithgarwch astudio dramor fynd yn ei flaen a bydd angen hysbysu'r tîm cyfleoedd byd-eang ar unwaith. Gellir cael cyngor a chanllawiau ar y cymorth a'r addasiadau priodol oddi wrth y [Gwasanaeth Disgyblu a Dyslecsia](#).

Mae angen cytuno ar unrhyw addasiadau rhesymol cyn i'r myfyriwr gychwyn ar ei weithgarwch astudio dramor a'i gofnodi ar y cytundeb dysgu myfyrwyr.

**Mae gwirio bod y sefydliad astudio dramor partner yn ymwybodol o egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'n glynu wrthynt**

Bydd y tîm cyfleoedd byd-eang yn gwirio a oes gan y sefydliad astudio dramor partner brosesau ar waith sy'n hyrwyddo ac yn parchu egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ddefnyddio'r **Holiadur lleoli**. Pan fydd yr Ysgol a'r sefydliad astudio dramor partner yn gweithio gyda'i gilydd i recriwtio/dyrannu myfyrwyr i weithgareddau astudio dramor, mae'n rhaid i'r Ysgol sicrhau bod y prosesau dethol a ddefnyddir yn agored ac yn deg.

Pan fydd yn ymddangos nad yw sefydliad astudio dramor partner yn gyfarwydd â'r gofynion deddfwriaethol, awgrymir eu bod yn cael eu cyfeirio at [Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol](#).

# ADRAN 6: Myfyrwyr Cyfnewid Rhyngwladol ac Astudio Dramor sy'n dod i astudio yng

## Egwyddorion cyffredinol ar gyfer cefnogi'r gwaith o wella'r rhaglenni cyfnewid rhyngwladol a phrofiad astudio dramor i fyfyrwyr newydd

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod Myfyrwyr rhaglenni cyfnewid rhyngwladol newydd yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned fyfyrwyr sydd â statws cyfatebol i fyfyrwyr cartref. Er mwyn darparu profiad myfyrwyr o ansawdd uchel i fyfyrwyr cyfnewid newydd, mae'r Brifysgol wedi cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol canlynol i fod yn gymwys i'r ddarpariaeth a fydd ar gael i bob myfyriwr cyfnewid newydd:

- **Yn cynnig:** Mae'n rhaid i bob Ysgol academiaidd anghlinigol roi amrywiaeth o fodylau un semester yn unig sy'n briodol ac yn ddigonol ar gael. Dylid cadarnhau rhestrau modiwlau yn unol â'r dyddiadau a bennwyd ar gyfer pob dewis modiwl yn y Dasg Gwybodaeth am y Rhaglen a'u hysbysebu yn y Catalog Modiwl Astudio Dramor Ar-lein;
- **Modiwlau amser-briodol:** Ar gyfer modiwlau blwyddyn o hyd, mae'n ofynnol i Ysgolion academiaidd greu amrywiolion semester sengl gyda chôd modiwl astudio dramor gwahanol, gyda chyswllt rhiant/plentyn wedi'i sefydlu er mwyn gallu rhannu deunyddiau dysgu ar draws y modiwlau. Ar gyfer modiwlau semester presennol yr Hydref yn unig, dylai Ysgolion academiaidd adolygu dulliau asesu i ganfod a ellid asesu deilliannau dysgu modiwlau drwy waith cwrs.;
- **Asesu:** Bydd asesu modiwlau Semester yr Hydref ac asesiadau ail-sefyll ar gyfer myfyrwyr cyfnewid rhyngwladol ac astudio dramor yn cael eu cynnal drwy waith cwrs yn unig.
- **Ymrestru:** Mae'n ofynnol i ysgolion gadw nifer priodol o leoedd ar gyfer myfyrwyr cyfnewid rhyngwladol/astudio dramor ar fodiwlau dethol er mwyn sicrhau y gellir cadarnhau dewis modiwlau myfyrwyr i'r myfyrwyr cyn iddynt gyrraedd.
- **Ysgol gartref:** Bydd Cyfleoedd Byd-eang yn parhau i weithredu fel y 'prif uned weinyddol' ar gyfer myfyrwyr cyfnewid rhyngwladol/astudio dramor, fodd bynnag, rhoddir Ysgol Academiaidd Gartref i bob myfyriwr astudio dramor a chyfnewid rhyngwladol. Bydd yr Ysgol Gartref hon naill ai'n seiliedig ar ble mae'r myfyriwr yn bwriadu cymryd y rhan fwyaf o fodiwlau neu'n adlewyrchu prif bwnc gradd y myfyriwr ym eu Brifysgol gartref. Mae'n rhaid i'r Ysgol Gartref enwebedig sicrhau bod pob myfyriwr cyfnewid rhyngwladol/Astudio Dramor yn cael tiwtor personol cyn iddo gyrraedd Caerdydd a'i bod yn cael ei hychwanegu at restrau cyfathrebu hanfodol yr Ysgol gan gynnwys gweithgareddau ymsefydlu.

# ADRAN 7: Rheoli a gwerthuso gweithgarwch Astudio Dramor

## Cyfrifoldebau staff Prifysgol Caerdydd

Rhaid i Bennaeth yr Ysgol neu ei enwebai (e.e. cydlynnydd astudio dramor) sicrhau bod y broses o reoli a gwerthuso'r holl drefniadau astudio dramor yn glynu wrth yr egwyddorion a nodir yn y polisi hwn. Dylid neilltuo aelod o staff i bob pob myfyriwr, a'r aelod hwnnw o'r staff fydd eu prif gyswllt gyda'r Brifysgol drwy eu hamser yn y corff partner. Gall fod yn aelod o'r staff gwasanaethau academaidd neu broffesiynol, ond dylai fod gan y person a bennir brofiad o ddarpariaeth astudio dramor a chymorth i fyfyrwyr.

Yn ogystal â derbyn cefnogaeth gan eu sefydliad partner a chan diwtor astudio dramor, mae myfyrwyr yn parhau i fod wedi'u cofrestru fel myfyrwyr y Brifysgol ac yn gallu cael mynediad i holl wasanaethau cymorth y Brifysgol. Felly, dylid rhoi tiwtor personol i fyfyrwyr hefyd y gall y myfyriwr gysylltu ag ef os bydd angen cymorth bugeiliol arnynt, yn enwedig mewn perthynas â materion nad ydynt yn ymwneud ag astudio dramor.

Os bydd yr aelod o staff a enwebwyd yn newid yn ystod cyfnod yr astudiaeth dramor, rhaid cysylltu â'r myfyriwr a'r sefydliad partner ar unwaith a rhoi gwybod pwy fydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau am weddill yr amser.

## Rhaglenni Gradd Cydanrhydedd

Pan mae cyfleoedd astudio dramor ar gael i fyfyrwyr cydanrhydedd, rhaid i'r Ysgol gartref sicrhau fod trefniadau rheoli a gwerthuso'r holl drefniadau astudio dramor (gan gynnwys trosi graddau) yn cadw at yr egwyddorion a nodir yn y polisi hwn. Dylai pob myfyriwr gael ei neilltuo i aelod priodol o staff â phrofiad o astudio dramor (gwasanaethau academaidd neu broffesiynol), fel arfer yn yr Ysgol gartref, a dyma fydd eu prif bwynt cyswllt drwy gydol y trefniant.

## Cytundeb dysgu myfyrwyr

Cyn y gall myfyriwr gychwyn ar ei weithgarwch astudio dramor, mae'n bwysig ei fod yn deall union fanylion yr hyn y bydd yn ei astudio yn y sefydliad partner astudio dramor. Cyn i'r myfyriwr adael, mae'n rhaid i'r ysgol gadarnhau'r modiwlau y bydd y myfyriwr yn eu hastudio a chofnodi'r wybodaeth ganlynol ar y Cytundeb Dysgu Myfyrwyr:

- Lefel FHEQ a gwerth y modiwlau a astudir yn y sefydliad sy'n lletya;
- Sut mae'r modiwlau yn yr astudiaeth sefydliad partner tramor yn bodloni'r deilliannau dysgu ar gyfer modiwl astudiaeth dramor Caerdydd (drwy ddogfennaeth mapio'r modiwl);
- Sut y bodlonir unrhyw ofynion PSRB drwy fodiwlau partner astudio dramor (drwy ddogfennaeth mapio'r modiwl);



- Unrhyw fecanweithiau trosi graddau a fydd yn cael eu defnyddio gydag esboniad manwl o sut y caiff marciau a enillwyd yn y partner astudio dramor eu troi'n farciau Caerdydd (os yw'n briodol);
- Cadarnhad bod myfyrwyr wedi derbyn Llawlyfr Astudio Dramor a manylion y broses gynefino;
- Y mecanweithiau y bydd yr Ysgol yn eu defnyddio ar gyfer cyfathrebu ac aros mewn cysylltiad â'r myfyriwr gan gynnwys cyswllt penodol a dolenni i wybodaeth am brotocol argyfwng

### **Gwybodaeth a briffiad i fyfyrwyr cyn astudio dramor**

Rhaid i'r Ysgol ddarparu gwybodaeth briffio i bob myfyriwr cyn cychwyn ar unrhyw weithgarwch astudio dramor. Dylai'r wybodaeth briffio gynnwys:

- Llawlyfr Astudio Dramor;
- trafodaeth o'r gweithgareddau dysgu a gynlluniwyd, deilliannau dysgu a fwriedir a sut y cânt eu hasesu a'r cyfleoedd ar gyfer ail-asesu;
- yr asesiad risg ac argymhellion ynghylch iechyd, diogelwch, lles ac yswiriant personol ar gyfer y myfyriwr;
- cyfrifoldebau a hawliau'r myfyriwr yn y lleoliad astudio dramor;
- ystyriaethau ieithyddol a diwylliannol;
- trefniadau llety (lle y bo'n berthnasol);
- gwybodaeth gyswllt - y Brifysgol a'r darparwr astudio dramor, ac hefyd i unrhyw sefydliadau lleol perthnasol eraill yn y lleoliad astudio dramor. Rhaid i bob myfyriwr fod yn ymwybodol o'r broses codi pryderon tra'n astudio dramor gyda'r Ysgol a'r sefydliad partner a'r cymorth ychwanegol a ddarperir gan [Undeb y Myfyrwyr](#);
- trefniadau cymorth i fyfyrwyr gan gynnwys dull ac amserlen gyswllt a gytunwyd drwy gydol yr amser astudio dramor, cyswllt astudio dramor penodol a gwybodaeth am brotocol argyfwng;
- unrhyw anghenion penodol sydd gan y myfyriwr unigol (e.e. anabledd, iechyd, deietegol neu grefyddol) a sut y caiff y rhain eu cynnwys yn yr astudiaeth dramor.

### **Cofrestr ysgol o weithgareddau astudio dramor**

Rhaid i ysgolion gadw cofrestr o holl weithgareddau astudio dramor. Dylai hyn gynnwys yr wybodaeth ganlynol ar gyfer pob astudiaeth dramor:

- y maes penodol o fewn yr ysgol sy'n gysylltiedig â gweithgaredd astudio dramor (tîm disgyblaeth / rhaglen / ymchwil);
- y cydlynnydd/tiwtor astudio dramor dynodedig;
- unrhyw sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan;
- enwau a manylion cyswllt;
- datganiad o gyfrifoldebau'r astudiaeth y sefydliad partner tramor;
- copi o unrhyw gytundebau ffurfiol â'r sefydliad partner astudio dramor;

- rhestr o enwau a rhifau ID myfyrwyr yn cymryd rhan yn yr astudio dramor;
- datganiad o unrhyw addasiadau rhesymol y cytunwyd arnynt gyda'r sefydliad partner astudio dramor; a
- chaniatâd ysgrifenedig y myfyriwr i ddatgelu anabledd, lle y bo'n berthnasol.

## **Cyswllt â myfyrwyr yn ystod yr astudiaeth dramor**

### Astudiaeth dramor am semester a blwyddyn gron

Ar gyfer ar gweithgarwch astudio dramor am semester a blwyddyn gron, dylai Ysgolion ystyried dichonoldeb ymweliadau bugeiliol gan diwtor astudiaeth dramor arbennig os ceir nifer uchel o fyfyrwr mewn un sefydliad partner. Dylid rhoi ystyriaeth i:

- ymweliadau cydweithredol (h.y. rhannu cyfrifoldebau ymweld ag ysgolion eraill Prifysgol Caerdydd sydd â myfyrwyr yn yr un lleoliad/rhanbarth);
- gwneud ymweliad bugeiliol â chanolfan 'ganolog' y gallai nifer o fyfyrwyr deithio iddo mewn diwrnod;
- ymweld â phartneriaid sefydledig dramor ar gylch rheolaidd.

Dylid esbonio y dull a'r amserlen cyfathrebu i'r myfyrwyr cyn y bydd y gweithgarwch astudio dramor yn cychwyn â'r cyswllt cyntaf yn digwydd o fewn y pythefnos cyntaf i sicrhau bod hyfforddiant cynefino briodol wedi digwydd a bod y myfyriwr wedi'i dod yn gyfarwydd â'r amgylchedd astudio dramor. Y disgwyliadau gofynnol ar gyfer cyswllt myfyrwyr yw dwywaith y semester dros Skype a/neu ffôn gydag ebost dilynol lle y bo'n briodol.

Lle nodwyd bod partneriaid astudio dramor yn perthyn i gategoriâu risg uwch drwy broses asesu risg partner astudio dramor, disgwylir y bydd yr ysgol yn monitro'r risgiau penodol a nodwyd fel rhan o'r broses asesu risg gyda'r myfyriwr a'r sefydliad partner. Rhaid i fyfyrwyr fod yn ymwybodol o'r broses ar gyfer codi pryderon tra'n astudio dramor gyda'r Ysgol a'r sefydliad partner a'r cymorth ychwanegol a ddarperir gan [Undeb y Myfyrwyr](#).

Dylai hefyd fod yn pwyntiau cyswllt a llinellau cyfathrebu sydd wedi'u hamserlennu'n glir rhwng yr Ysgol a'r sefydliad partner. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd ar gyfer y partner i:

- codi pryderon neu gwynion am unrhyw agwedd ar y gweithgaredd, gan gynnwys perfformiad neu ymddygiad myfyriwr unigol;
- gwneud awgrymiadau i'r Brifysgol ynglŷn â sut y gellid gwella'r gweithgarwch.

Rhaid cofnodi'r holl gyfathrebu ar ffeil y myfyriwr a'i adolygu ar ddiwedd y lleoliad. Gall y wybodaeth lywio unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ar briodoldeb lleoli myfyrwyr gyda'r sefydliad partner astudio dramor.

## **Dychwelyd o astudio dramor**

Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn cael eu cefnogi wrth drosglwyddo yn ôl i'r Brifysgol i ailgydio yn eu rhaglen academaidd. Gellir gwneud hyn ar sail un i un neu drwy grŵp sesiwn ôl-drafod os oes nifer o fyfyrwyr sy'n dychwelyd ar yr un pryd. Er y byddai cyswllt rheolaidd drwy gydol y semester/blwyddynr astudio dramor tynnu sylw Ysgolion at unrhyw faterion brys neu bryderon, gall sesiwn bwydo gwybodaeth yn tynnu sylw at feysydd o arfer da y gellir ei rannu ac adrodd drwy'r broses Adolygiad Gwella Blynyddol.

## **Cwynion ac Apeliadau**

Mae gan unrhyw fyfyrwr cofrestredig neu gyn-fyfyrwr i Brifysgol Caerdydd yr hawl i gwyno ac apelio drwy weithdrefnau arferol y Brifysgol. Felly, oni nodir yn glir fel arall, bydd fframwaith rheoleiddiol y Brifysgol ar gyfer cwynion ac apeliadau yn berthnasol.

## **Monitro a gwerthuso gweithgareddau astudio dramor**

Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod modd clir, effeithiol a chyfrinachol i fyfyrwyr ddarparu adborth tra eu bod yn y sefydliad partner astudio dramor er mwyn diogelu profiad y myfyrwr. Dylid monitro, gwerthuso a chrynhai adborth mewn adroddiad blynyddol i'r Bwrdd astudiaethau ac i'r Brifysgol trwy'r broses adolygu a gwella blynyddol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth sy'n crynhoi:

- nifer y myfyrwyr a chyflawniadau ar astudio dramor;
- unrhyw effaith o ganlyniad i niferoedd myfyrwyr cynyddol ar yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi myfyrwyr;
- adborth gan yr holl randdeiliaid;
- myfyrion ar unrhyw raglenni/partneriaid newydd yn cael ei ychwanegu, ynghyd â sylwadau ar unrhyw newidiadau arfaethedig i wella gweithgarwch astudio dramor mewn blynyddoedd i ddod;
- adlewyrchiad o unrhyw faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd wedi'u codi;
- unrhyw sylwadau eraill, gan gynnwys pwyntiau allweddol sy'n crynhoi unrhyw agweddau ar arfer da yr ystyriwyd eu bod yn arbennig o effeithiol.

Bydd y Pwyllgor Safonau Academaidd ac Ansawdd yn cynnal goruchwyliaeth sefydliadol o'r gwaith o fonitro ac adrodd ar weithgarwch lleoli drwy'r broses ARE.

## ATODIAD A: Tacsonomeg darpariaeth cyfnod ar leoliad

	Lleoliadau Gwaith / Interniaethau	Astudio Dramor (gan gynnwys cyfnewid rhyngwladol ac Erasmus)	Gwirfoddoli a phrofiad gwaith nad ydynt yn arwain at gredydau
<b>Prif Bolisi i'w ystyried</b>	POLISI DYSGU AR LEOLIAD	Polisi Astudio Dramor	POLISI DYSGU AR LEOLIAD
<b>Categori Risg:<sup>3</sup></b>	3	3	1
<b>Diffiniad</b>	<p>Mae pwyslais y lleoliad/interniaeth ar feithrin profiad cyflogaeth technegol neu broffesiynol. Gallai hyn fod yn y DU neu dramor drwy flwyddyn academaidd lawn, semester neu fodiwl.</p> <p>Gallai'r myfyriwr fod dan gontract gan gyflogwr, neu heb gontract. Os yw dan gontract, mae'r myfyriwr yn cael y statws, y tâl, a'r mynediad i strwythurau cefnogi sy'n gymesur â gweithwyr y sefydliad.</p>	<p>Mae'r myfyriwr wedi'r gofrestru fel myfyriwr yn y sefydliad partner lle mae ar leoliad a Chaerdydd.</p> <p>Mae'r lleoliad yn cynnig cyfnod o astudiaeth academaidd gyda Phrifysgol dramor, sydd yn arwain at gredydau mewn rhaglen gan Gaerdydd.</p> <p>Mae lleoliadau naill ai yn:</p> <p>a) <b>Gorfodol:</b> i ddyfarniad gradd Caerdydd (semester neu flwyddyn academaidd lawn).</p> <p>b) <b>Dewisol:</b> gall myfyriwr wneud cais am leoliadau ledled y byd drwy raglen Erasmus+ (neu gynlluniau eraill) i astudio neu weithio mewn gwlad Ewropeaidd am 2-12 mis fel rhan o'u rhaglen gradd.</p>	<p>Gall hyn gael ei drafod yn uniongyrchol rhwng y myfyriwr a'r darparwr lleoliad neu gyda chymorth gan y Brifysgol (Ysgol academaidd/tîm Cyfleoedd Byd-eang) ac nid yw'n un o ofynion rhaglen astudio'r myfyriwr.</p>

<sup>3</sup> Mae'r Brifysgol wedi asesu a chategorio pob math o ddarpariaeth gydweithredol yn ôl risg ar raddfa 6 phwynt, 6 sy'n cynrychioli'r risg uchaf. Gweler rhagor yn y Polisi Darpariaeth Gydweithredol. Nid yw sgorau risg Categori Cyffredinol yn disodli'r angen i gynnal asesiadau risg unigol fesul cynnig, yn hytrach na hynny, mae'r sgorau categori yn gweithredu fel manau cychwyn ac yn cynnig sgôr cyffredinol ar gyfer y math o ddarpariaeth gydweithredol.

<p><b>Nodweddion y Cwricwlwm</b></p>	<p>a) <b>Blwyddyn ar Leoliad:</b> lleoliad unigol sy'n arwain at 120 o gredydau, fel rhan o raglen astudio, sydd fel arfer am gyfnod o un flwyddyn academaidd. Mae cynnwys blwyddyn ar leoliad yn creu rhaglen astudio ar wahân gan y bydd amrywiad y lleoliad yn cael ei adlewyrchu yn nheitl y rhaglen (e.e. LLB gyda Blwyddyn ar Leoliad Proffesiynol).</p> <p>b) <b>Modiwl:</b> un modiwl neu gyfres o fodiwlau sy'n arwain at gredydau, fel rhan o raglen astudio.</p>		<p>Nid yw wedi'i integreiddio i'r cwricwlwm a gallai gael ei gyflawni yn ystod cyfnodau gwyliau neu y tu allan i oriau cyswllt sydd wedi'u trefnu yn y Brifysgol.</p>
<p><b>Nodweddion Asesu</b></p>	<p>a) <b>Blwyddyn ar Leoliad:</b> Mae'r deilliannau dysgu ar gyfer y lleoliad yn cael eu hasesu gan Brifysgol Caerdydd ac mae'r credydau a'r marciau'n cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyfrifo dosbarth y radd (10%).</p> <p>b) <b>Lleoliadau wedi'u gwreiddio mewn modiwlau:</b> Asesir y deilliannau dysgu ar gyfer y modiwl drwy ddulliau asesu y cytunwyd arnynt.</p> <p>Dylid datblygu cynlluniau asesu a meini prawf marcio ar gyfer y holl weithgarwch lleoliadau sy'n arwain at gredydau.</p>	<p>Asesiad sy'n arwain at gredydau: mae'r lleoliad yn cael ei asesu, ac mae credydau a marciau a enillir yn y sefydliad partner yn cael eu trosi drwy'r broses <b>Trosi Graddau</b> gan Gaerdydd ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyfrifo dosbarthiad y radd.</p>	<p>Dim asesiad.</p>
<p><b>Lefel Cefnogaeth</b></p>	<p>Cynnal cyswllt wedi'i drefnu gyda myfyrwyr ac sy'n cael ei drafod <b>cyn</b> i fyfyrwr ddechrau ar leoliad. Bydd aelod penodol o staff yng Nghaerdydd a chan ddarparu'r y lleoliad a fydd yn gyswllt allweddol/goruchwyliwr/mentor. Ar gyfer lleoliadau semester a blwyddyn o hyd, mae'n rhaid i'r cyswllt cyntaf ddigwydd o fewn pythefnos cyntaf wedi dechrau'r lleoliad. Rhaid i leoliadau risg uwch gael eu monitro bob mis gyda'r myfyriwr a darparwr y lleoliad.</p> <p>Ar gyfer cyfnodau lleoliad byrrach (e.e. mewn modiwlau), mae'n rhaid sefydlu cyswllt cynnar er mwyn sicrhau fod myfyrwyr yn cael eu cefnogi pe byddai unrhyw faterion neu anawsterau'n codi a allai effeithio arnynt wrth gyflawni canlyniadau dysgu'r modiwl.</p>	<p>Rhaid trafod trefn monitro a chysylltiad rheolaidd ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u lleoli dramor <b>cyn</b> i'r myfyriwr ddechrau ar y lleoliad. Ar gyfer lleoliadau semester a blwyddyn o hyd, mae'n rhaid i'r cyswllt cyntaf ddigwydd o fewn pythefnos cyntaf.</p> <p>Ar gyfer cyfnodau lleoliad byrrach (e.e. mewn modiwlau), mae'n rhaid sefydlu cyswllt cynnar er mwyn sicrhau fod myfyrwyr yn cael eu cefnogi pe byddai unrhyw faterion neu anawsterau'n codi a allai effeithio arnynt wrth gyflawni canlyniadau dysgu'r modiwl.</p>	<p>Gellir trefnu cyswllt rheolaidd os trefnir hynny drwy'r tîm Cyfleoedd Byd-eang.</p>

<b>Cyfrifoldebau Prifysgol Caerdydd</b>	Yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysgol, adnoddau a threfniadau goruchwylio. Caiff hyn ei reoli ar lefel sefydliadol drwy Fframwaith Sicrhau Ansawdd Prifysgol Caerdydd.		Mae <a href="#">Gyrfaedd a Chyflogadwyedd</a> a'r <a href="#">Tîm Cyfleoedd Byd-eang</a> yn gallu helpu myfyrwyr i nodi cyfleoedd profiad gwaith am dâl a heb dâl.
<b>Cyfrifoldebau: Ysgol/Sefydliad</b>	<p>Rheoli gweithredol, sicrwydd a chefnogaeth ar gyfer cyfleoedd lleoliad, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Asesiad o briodoldeb darparwyr lleoliadau unigol (e.e. drwy fecanweithiau asesu risg gan gynnwys yswiriant).</li> <li>• Cymryd camau i sicrhau fod cyfleoedd yn gyson gyda Pholisi Cyfleoedd Cyfartal y Brifysgol.</li> <li>• Diffinio'r cyfrifoldebau a'r hawliau manwl sy'n berthnasol i fyfyrwyr a darparwyr.</li> <li>• Cynnal sesiwn frifio i ddarparwyr a sicrhau fod canllawiau ysgrifenedig ar gael fel llawlyfrau, gan gynnwys gwybodaeth ar ddeiliannau dysgu a fwriedir. Efallai y byddai'n defnyddio datblygu 'cytundeb dysgu' gyda darparwyr.</li> <li>• Darparu canllawiau a dogfennau i gefnogi myfyrwyr cyn, yn ystod, ac ar ôl y lleoliad (e.e. llawlyfr y lleoliad).</li> <li>• Rheoli lleoliad a marcio'r cynlluniau asesu yn enwedig lle mae darparwyr lleoliad wedi cael mewnbwn wrth gyflawni rhai o'r ymarferion asesu.</li> <li>• Gwerthuso effeithiolrwydd lleoliadau.</li> </ul>	<p>Rheoli gweithredol, sicrwydd a chefnogaeth ar gyfer cyfleoedd lleoliad, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Asesiad o briodoldeb darparwyr lleoliadau unigol (e.e. drwy fecanweithiau asesu risg)*.</li> <li>• Cymryd camau i sicrhau fod cyfleoedd yn gyson gyda Pholisi Cyfleoedd Cyfartal y Brifysgol*.</li> <li>• Diffinio cyfrifoldebau a hawliau manwl myfyrwyr*.</li> <li>• Darparu canllawiau a dogfennau i gefnogi myfyrwyr cyn, yn ystod, ac ar ôl y lleoliad (e.e. llawlyfr lleoliad dramor)*.</li> <li>• Cynghori, craffu a chymeradwyo detholiad modiwl/cynllun astudio myfyriwr i sicrhau fod y cynllun yn bodloni rheoliadau rhaglenni*. (Mae Cytundeb Dysgu Erasmus wedi'i lenwi ar gyfer lleoliadau astudio Erasmus.)</li> <li>• Sefydliad sy'n lletya yn cynnal asesiad a'r Ysgol yn gyfrifol am dro marciau.</li> <li>• Gwerthuso effeithiolrwydd lleoliadau*.</li> </ul> <p>*Darperir cefnogaeth ganolog yn ogystal â lleoliadau sy'n cael eu cydlynu gan y Rhaglen Cyfnewid Rhyngwladol drwy'r <a href="#">Ganolfan Cyfleoedd Byd-eang</a></p>	<p>Os trefnir y gweithgareddau gan y Brifysgol/Ysgol mae'n debyg y bydd y cyfrifoldebau canlynol wedi'u cyflawni:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Asesiad o briodoldeb darparwyr lleoliadau unigol (e.e. drwy fecanweithiau asesu risg gan gynnwys yswiriant);</li> <li>• Cymryd camau i sicrhau fod cyfleoedd yn gyson gyda Pholisi Cyfleoedd Cyfartal y Brifysgol;</li> <li>• Amlygu pwyntiau cyswllt wedi'u hamserlennu.</li> </ul> <p>Os nad yw'r gweithgaredd wedi'i drefnu'n ffurfiol gan y Brifysgol, nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar y Brifysgol i bennu iechyd a diogelwch, yswiriant neu bwyntiau cyswllt wedi'u hamserlennu.</p>

<p><b>Cyfrifoldebau Myfyrwyr</b> (Cyffredinol)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau cyfle lleoliad addas (lle y bo'n briodol).</li> <li>• Os dramor, cael fisa ac unrhyw yswiriant angenrheidiol.</li> <li>• Os dramor, cofrestru gyda'r Conswl Prydeinig lleol.</li> <li>• Cydymffurfio ag unrhyw god ymddygiad proffesiynol perthnasol ac ymddwyn fel cynrychiolydd i'r rhaglen a Phrifysgol Caerdydd.</li> <li>• Cynnal presenoldeb priodol a lefelau cyswllt fel y cytunwyd arnynt gyda Phrifysgol Caerdydd cyn cychwyn y lleoliad.</li> <li>• Chwilio am gyfleoedd dysgu a manteisio i'r eithaf ar y profiad dysgu sydd ar gael.</li> <li>• Rhoi gwybod i'r Ysgol os deuir y lleoliad i ben yn gynnar.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cael fisa ac unrhyw yswiriant angenrheidiol ar gyfer cyfnod dramor.</li> <li>• Cofrestru gyda'r Conswl Prydeinig lleol.</li> <li>• Datblygu cynllun astudiaeth / cytundeb dysgu yn dilyn canllaw a ddarperir ar ddewis modiwlau a rheoliadau rhaglen.</li> <li>• Hysbysu Prifysgol Caerdydd am unrhyw newidiadau i'r cynllun astudio y cytunwyd arno, a chael cymeradwyo'r newidiadau hyn.</li> <li>• Bod yn ymwybodol o reoliadau academiaidd yn y sefydliad sy'n lletya, a dilyn y rhain.</li> <li>• Cynnal presenoldeb priodol a lefelau cyswllt fel y cytunwyd arnynt gyda Phrifysgol Caerdydd cyn cychwyn y lleoliad.</li> <li>• Chwilio am gyfleoedd dysgu a manteisio i'r eithaf ar y profiad dysgu sydd ar gael.</li> <li>• Rhoi gwybod i'r Ysgol os deuir y lleoliad i ben yn gynnar.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau cyfle profiad gwaith addas (lle y bo'n briodol).</li> <li>• Os dramor, cael fisa ac yswiriant.</li> <li>• Gwirio gwefan y <a href="#">Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad</a> am y wybodaeth ddiweddaraf.</li> <li>• Ymddwyn yn broffesiynol ac fel cynrychiolydd o Brifysgol Caerdydd, lle mae'r cyfle wedi'i drefnu gyda chefnogaeth sefydliadol.</li> </ul>
<p><b>Cyfrifoldebau Darparwr y Lleoliad</b> (Cyffredinol)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu cyfleoedd dysgu priodol, gyda phwyslais penodol ar brofiad proffesiynol, ymarferol, neu brofiad technegol.</li> <li>• Lle y bo'n briodol, cyfrannu at asesiad myfyrwyr.</li> <li>• Cydymffurfio gyda'r holl gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cyflogaeth.</li> <li>• Cydymffurfio gyda deddfwriaeth lechyd a Diogelwch a chynnal yswiriant priodol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu cyfleoedd dysgu priodol, cynnal asesiadau, cynhyrchu trawsgrifiad o ganlyniadau.</li> <li>• Cydymffurfio gyda deddfwriaeth lechyd a Diogelwch a chynnal yswiriant priodol.</li> </ul>	<p>Lle cefnogir y cyfle gan y Brifysgol, byddai disgwyl i'r darparwr gydymffurfio gyda deddfwriaeth lechyd a Diogelwch, cyflogaeth ac yswiriant fel bo'n berthnasol.</p>

	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cydymffurfio gyda'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn eu lle.</li></ul>		
--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--